## Y Pasg

**Darlleniad: Luc 24:1-12**

Ein Tad nefol,
Wedi oerni'r gaeaf a chaledi'r tir,
Diolchwn am y gwanwyn sy'n meirioli, yn meddalu
ac yn meithrin bywyd newydd ym myd natur.

Ein Tad nefol,
Cyffeswn i ti ein gaeaf ysbrydol
A chaledi tir ein calonnau.
Cyffeswn ein hamharodrwydd i adael i'th gariad ein newid.

Diolchwn i ti o'r newydd heddiw
fod dy gariad yn ddigon cryf i dorri trwodd atom
i'n dadmer a'n deffro.
Diolch dy fod wedi rhoi rheswm inni ddathlu dechrau newydd y Pasg hwn.

Ynghanol bywyd newydd y gwanwyn a'i obaith gwyrdd,
Dathlwn y bywyd newydd sydd i ni yn Iesu Grist.
Fel y cododd Crist i fywyd newydd ar y trydydd dydd,
gad i ninnau, wedi i ni farw i'r drwg sydd ynom,
Godi i fywyd newydd yng Nghrist.

Fel y daeth Crist at ei ddisgyblion digalon ar y ffordd i Emaus,
Dyro i ninnau yn ein hamheuon a'n  hanobaith brofi presenoldeb Crist fel tân yn ein calonnau.
Fel y daeth Crist i ganol pryder y stafell glo gyda geiriau o gysur,
Gad i ninnau ynghanol ein pryderon glywed ei lais yn cyhoeddi
'Tangnefedd i chwi'.

Fel y casglodd Crist ei ddisgyblion, a'u hanfon i gyhoeddi'r efengyl i'r holl fyd,
Anfon ninnau yn nerth dy Ysbryd Glân i gyhoeddi i'n byd heddiw fod Iesu wedi atgyfodi,
fod gennym wir reswm i ddathlu!
Cofiwn heddiw am ddigwyddiadau bore'r trydydd dydd wedi marwolaeth Iesu ac wedi gosod ei gorff mewn bedd.

Cofiwn heddiw am y gwragedd ffyddlon a ddaeth at y bedd
a'u dagrau'n gymysg â gwlith y bore bach.
Diolchwn heddiw am bawb sy'n ffyddlon i Grist pan fo llawer wedi cilio, ac am bawb sy'n golchi llwybr eu gwasanaeth â'u dagrau.
Cofiwn heddiw am y garreg fawr drom oedd yn ffordd y gwragedd, rhag sylweddoli gwirionedd gwyrthiol y Pasg cyntaf.

Gweddïwn heddiw dros bawb sy'n gweld rhwystrau rhag credu,
a thros bawb sy'n teimlo pwysau llethol eu hanobaith.

Cofiwn heddiw am wacter y bedd y bore hwnnw,
Cofiwn am golli un annwyl, a cheisio ei gorff mud.
Dathlwn heddiw mai gwag yw ymffrost angau,
Dathlwn heddiw fod Iesu eto'n fyw!

Cofiwn am gwestiwn yr angel i'w ddilynwyr:
'Pam yr ydych yn ceisio ymhlith y meirw yr hwn sy'n fyw?'
Gwahoddaf chi i ymateb heddiw gyda'r geiriau:
'Nid yw ef yma: y mae wedi ei gyfodi!'

Clywsom sut y daliwyd Crist gan ei elynion,
Sut y cafodd ei brofi, ei watwar a'i guro.
Chwiliwn amdano heddiw ymhlith arwyr a fethodd:
Pam yr ydych yn ceisio ymhlith y meirw yr hwn sy'n fyw?

Pawb: 'Nid yw ef yma: y mae wedi ei gyfodi!'

Clywsom sut y traddodwyd ef i farw,
Sut yr hoeliwyd ef ar groesbren, sut y dywedodd 'Gorffennwyd'.
Chwiliwn amdano heddiw ymhlith syniadau a mudiadau a fethodd:
Pam yr ydych yn ceisio ymhlith y meirw yr hwn sy'n fyw?

Pawb: 'Nid yw ef yma: y mae wedi ei gyfodi!'

Clywsom sut y daeth y gwragedd at y bedd y trydydd dydd, a chredu.
Clywsom sut yr amheuodd y disgyblion fod Iesu eto'n fyw.
Chwiliwn amdano heddiw ymysg hen ddadleuon y gorffennol:

Pawb: 'Nid yw ef yma: y mae wedi ei gyfodi!'

Dathlwn heddiw brofiad bore'r trydydd dydd.
Dathlwn heddiw – Mae Iesu'n fyw!

Bydded iddo fyw yn ein profiad a'n bywyd bob un,
Bydded iddo fyw ym mywyd ein heglwys leol, a thrwy'r Eglwys gyfan,
Bydded iddo fyw ym mywyd ein cymdeithas, ein gwlad a'n byd!

Ni cheisiwn mwyach ymhlith y meirw yr hwn sy'n fyw ac yn teyrnasu am byth!
Oherwydd y mae yn wir wedi ei atgyfodi! Amen.

***Casi Jones***